# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn penodi Prif Gynghorydd Gwyddonol newydd

Mae'r Athro Young yn ymuno â'r ASB ar sail ran-amser, a hynny wrth gynnal ei rôl bresennol fel Patholegydd Cemegol Ymgynghorol yn Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast ac fel Athro Meddygaeth ym Mhrifysgol Queen's yn Belfast, lle bu'n gyfarwyddwr y Ganolfan Iechyd Cyhoeddus gynt.

Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel Prif Gynghorydd Gwyddonol i Adran Iechyd, Gogledd Iwerddon, Cyfarwyddwr Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gogledd Iwerddon ac mae'n cadeirio Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar Faeth. Bydd yn rhoi'r gorau i'r dyletswyddau hyn ar ôl ymuno â'r ASB.

Drwy gydol ei yrfa, mae'r Athro Young wedi dal swyddi arweinyddiaeth mewn sefydliadau gwyddonol o bwys, gan gynnwys Cyn-Lywydd Cymdeithas Biocemeg Glinigol a Meddygaeth Labordy, y DU. Yn flaenorol, bu'n gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer Olrheiniadwyedd mewn Meddygaeth Labordy ac Adran Wyddonol Ffederasiwn Rhyngwladol Cemeg Glinigol a Meddygaeth Labordy.

Wrth siarad am y penodiad, dywedodd yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

> "Rwy'n falch iawn o groesawu'r Athro Ian Young i'r ASB fel ein Prif Gynghorydd Gwyddonol newydd. Mae'r rôl hon yn hanfodol wrth ddod o hyd i dystiolaeth a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ansawdd y wyddoniaeth yr ydym yn dibynnu arni i arwain ein gwaith a datblygu polisïau'r ASB. Bydd yr Athro Young hefyd yn helpu i sicrhau bod yr ASB yn cynnal ei chysylltiadau cryf â'r gymuned wyddoniaeth yn y byd academaidd, y diwydiant a'r llywodraeth. Bydd ei arbenigedd dwfn a'i allu i drosi ymchwil yn bolisi yn amhrisiadwy yn ein cenhadaeth o fwyd y gallwch ymddiried ynddo, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag ef."
> Yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Ychwanegodd yr Athro Young:

> "Rwy'n falch iawn fy mod i wedi cael cynnig swydd Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB. Does dim byd pwysicach i iechyd y cyhoedd na sicrhau bod y bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn ddiogel ac yn ddilys. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda gwyddonwyr ar draws yr ASB i sicrhau bod popeth a wnawn yn cael ei arwain gan wyddoniaeth dda a'r dystiolaeth orau sydd ar gael."
> Yr Athro Young

Yr Athro Young fydd pedwerydd Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB, gan gymryd lle yr Athro Robin May, a adawodd yr ASB ym mis Medi 2025 yn dilyn ei benodiad yn Brif Swyddog Gwyddonol Dros Dro yn Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA).

Mae Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB yn gyfrifol am:

- gywirdeb y prosesau a ddefnyddir i ddod o hyd i dystiolaeth wyddonol a sicrhau bod cyngor gwyddonol arbenigol ar gael i'r Asiantaeth
- cynrychioli'r Asiantaeth yng nghymuned Prif Gynghorwyr Gwyddonol adrannol a'r gymuned wyddonol ehangach
- hyrwyddo gwyddoniaeth o fewn yr Asiantaeth trwy ddatblygu arbenigedd ei gwyddonwyr

Mae gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol gyfrifoldeb cyffredinol hefyd am yr holl ddisgyblaethau dadansoddol y mae'r Asiantaeth yn cael cyngor ganddynt, gan gynnwys gwyddorau naturiol a ffisegol, gwyddor gymdeithasol, economeg, ymchwil weithredol ac ystadegau.